Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor 15/8/2024 am 7 o'r gloch
Minutes of the Full Council meeting held at the Town Council Chamber 15/8/2024 at 7pm

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Julie Edwards, Meg Roberts, Llinos Knowles Williams, John Gill, Gerry Belanger, Liz Wood, Alan Wood, Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau/Apologies: Nina Bulkeley, Noel Kerr, Gordon Warren, Gareth Thomas, Derek Owen

Yn bresennol/In attendance: Carli Evans Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithydd/interpretation)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies
Bu Gareth Roberts gadeirio'r cyfarfod a croesawyd pawb yn bresennol.
Gareth Roberts chaired the meeting and welcomed all present.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest
Aled Morris Jones a Gareth Winston Roberts – eisiau cadarnhau eu bod yn gyfarwyddwyr Hyfforddiant Parys Training – menter cymdeithasol gyda dim budd personol. Mae cyfansoddiad y cwmni yn nodi byddai unrhyw asedau yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor Tref petai'r cwmni yn cael ei ddiddymu.

Aled Morris Jones and Gareth Winston Roberts - confirmation that they are directors of Parys Training - a social enterprise with no personal gain. The company's constitution states that any assets would be transferred to the Town Council if the company was dissolved.

3 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report
Cafwyd adroddiad cryno gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor. Bu cymeradwyo nifer o daliadau yn ol yr arfer a chydnabod adroddiad chwarterol incwm a gwariant y Cyngor Ebrill-Mehefin. Derbyniwyd dau gais am gefnogaeth ariannol – bydd gofyn am fwy o wybodaeth gan Yr Arwydd cyn ystyried eu cais mewn manylder. Cafwyd wybod bod diweddariad gan y cyfreithiwr am yr achos yn ymwneud a'r prosiect ynni – mae disgwyl diweddariad pellach diwedd mis Medi. Mae disgwyl dogfennau gan Un Llais Cymru cyn diweddaru'r rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol. Cafwyd hefyd ddiweddariad am y sefyllfa bresennol yn ymwneud a'r adeiladau ym Mhorth Amlwch, gan nodi bod disgwyl ar Menter Mon a'r Cyngor Sir. Bu trafod hefyd dogfennau ar gyfer yr archwiliad allannol – gweler isod.

Myrddin Owens gave a brief report following the Committee meeting. A number of payments were approved as usual and the Council's April-June quarterly income and expenditure report was acknowledged. Two requests for financial support were received - more information will be requested from Yr Arwydd before considering their request in detail. An update was provided from the lawyer about the case relating to the energy project - a further update is expected at the end of September. Documents are expected from Un Llais Cymru before updating the standing orders and financial regulations. There was also an update on the current situation regarding the buildings in Amlwch Port, noting that progress is expected from Menter Mon and the County Council. Documents for the external audit were also discussed - see below.

4 Cymeradwyo Ffurflen Blynyddol Archwiliad 23/24 / To approve the Audit Annual Return 23/24
Cadarnhadyd bod y clerc wedi anfon y ffurflen blynyddol at yr holl aelodau yn dilyn yr archwiliad mewnol. Bu'r Pwyllgor Cyllid gynnig bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r ddogfen a'i fod yn cael ei gyflwyno i'r archwiliwr allannol. Bu'r aelodau yn unfrydol gefnogol, y clerc i wneud y trefniadau perthnasol.

It was confirmed that the clerk had sent the annual form to all members following the internal audit. The Finance Committee proposed that the Full Council approve the document and that it be presented to the external auditor. The members were unanimously supportive, the clerk to make the relevant arrangements.

5 Cais estynu Prydles Lon Bach / Request to extend Lon Bach Lease
Daw cais gan y Clwb Pel Droed i gael estyniad ar y prydles er mwyn gallu cyflwyno ceisiadau grant i wella'r cae a chyfleusterau'r clwb. Nodwyd bod nifer o grantiau penodol ar gael ar hyn o bryd. Bu'r Pwyllgor Cyllid argymell bod y Cyngor yn cytuno estyniad o 10 mlynedd (hyd 2048) ar yr ar yr amod bod y Clwb yn talu unrhyw gostau cyfreithiol perthnasol. Bu'r aelodau yn unfrydol gefnogol.

A request from the Football Club for an extension to the current lease in order to be able to submit grant applications to improve the pitch and the club's facilities was discussed. It was noted that a number of relevant grants are currently available. The Finance Committee recommended that the Council agree an extension of 10 years (until 2048) on the condition that the Club pays any relevant legal costs. The members were unanimously supportive.

6 Diweddariad Adeiladau Porth Amlwch Port Buildings Update

Nodwyd bod diweddariad eisioes wedi ei rannu yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Trafodwyd pryder am eitemau sydd wedi eu benthyg i'r amgueddfeydd ym Mhorth Amlwch gan nodi bod teuluoedd wedi bod mewn cyswllt a'r Cyngor yn gofyn am wybodaeth am eu heiddo a dyfodol yr amgueddfeydd. Cytuno byddai'r Cyngor yn gwahodd cynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Amlwch i gwrdd a'r aelodau i gadarnhau eu bwriad a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

It was noted that an update had already been shared in the report of the Finance Committee. Concern was discussed about items that have been loaned to the museums in Porth Amlwch noting that families have been in contact with the Council asking for information about their property and the future of the museums. Agreed that the Council would invite representatives of the Amlwch Heritage Trust to meet the members to confirm their intention and plans for the future.

7 Materion Cynllunio / Planning Matters

7.1 Bu ystyried y ceisiadau canlynol / the following applications were considered:
HHP/2024/123 Rhandir Mwyn – dim gwrthwynebiad / no objection
HHP/2024/143 Gwendon, 5 Craig Ddu – dim gwrthwynebiad / no objection

7.2 Cafwyd gwybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / IACC decisions were noted as follows:
FPL/2024/51 Gwyndy – gwrthodwyd/refused
LUE/2024/16 Bodgadfa – cyfreithiol/legal

8 Materion ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf / Matters for the agenda for the next meeting

8.1 Hen Ysgol Porth Amlwch Port Old School
Bu cwestiwn godi am berchnogaeth a rheolaeth yr adeilad, cytuno cynnwys eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf, bu Gareth Roberts nodi pryder bod y fath gwestiynnau yn cael eu gofyn, a bu iddo gadarnhau ei fod wedi cysylltu a'r ymddiriedolwyr.

There was a question raised about the ownership and management of the building, agreed to include an item on the agenda of the next meeting. Gareth Roberts noted concern that such questions were being asked, and confirmed that he had made contact with the trustees.

8.2 Fferm Solar Maen Hir Solar Farm
Nodwyd bod y cwmni wedi cynnal digwyddiadau cymunedol dros yr wythnosau diwethaf ond bod y sawl oedd wedi mynychu yn siomedig am y diffyg gwybodaeth. Nodwyd siom a pryder am maint a lleoliad y fferm a bod tir amaethyddol yn cael ei golli i'r datblygiad a'r effaith ar fywydau pobl lleol; trafodwyd hefyd y gronfa 'budd cymunedol' oedd ar gynnig a sut oedd bwriadu ei reoli. Nodwyd bydd y penderfyniad i ganiatau'r datblygiad neu peidio yn cael ei wneud yn Llundain. Bu cytuno yn unfrydol cysylltu a Rhun ap Iorwerth a Llinos Medi am eu barn ar y mater. Bu gytuno yn unfrydol hefyd cysylltu a CSYM a gofyn am gyfarfod agored.

It was noted that the company had held community events over the past few weeks but that those who had attended were disappointed by the lack of information. Disappointment and concern were noted about the size and location of the farm and that agricultural land is being lost to the development and the impact on the lives of local people; the 'community benefit' fund that was on offer and how it was intended to be managed was also discussed. It was noted that the decision to allow the development (or not) will be made in London. It was unanimously agreed to contact Rhun ap Iorwerth and Llinos Medi for their opinion on the matter. It was also unanimously agreed to contact the IACC and ask for an open meeting.

9 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Cynhelir y cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor Llawn 24/9/24 am 7yh.
The next ordinary Full Council meeting will be held 24/9/24 at 7pm.

Gareth Winston Roberts OBE, Cadeirydd / Chair, Cyngor Tref Amlwch Town Council